

MEMORANDWM CYDSYNIAD DEDDFWRIAETHOL

Y BIL IECHYD A GOFAL

1. Gosodir y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol hwn o dan Reol Sefydlog ("RhS") 29.2. Mae RhS 29 yn rhagnodi bod rhaid gosod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, ac y ceir cyflwyno Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol, gerbron Senedd Cymru os yw Bil gan Senedd y DU yn gwneud darpariaeth o ran Cymru at bwrpas sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru neu sy'n addasu'r cymhwysedd hwnnw.
2. Cyflwynwyd y Bil Iechyd a Gofal (y "Bil") yn Nhŷ'r Cyffredin ar 6 Gorffennaf 2021. Gellir cael copi o'r Bil fel y'i cyflwynwyd yn: <https://bills.parliament.uk/bills/3022>

Amcan(ion) Polisi

3. Amcan datganedig Llywodraeth y DU yw gweithredu polisiâu a nodir yn argymhellion y GIG ar gyfer diwygio deddfwriaethol, yn dilyn Cynllun Hirdymor y GIG, a'r Papur Gwyn, 'Integration and Innovation: working together to improve health and social care for all'. Dywed Llywodraeth y DU fod y Bil yn adeiladu ar gynigion y GIG ei hun ar gyfer diwygio, gyda'r nod o'i wneud yn llai biwrocraidd, yn fwy atebol, ac yn fwy integredig, ac i ymgorffori gwersi a ddysgwyd o'r pandemig.

Crynodeb o'r Bil

4. Noddir y Bil gan yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol.
5. Mae darpariaethau allweddol y Bil yn cwmpasu nifer o feysydd, a nodir yn gryno isod.
 - a) Mynd i'r afael â phryderon a godwyd gan NHS England, megis sefydlu Systemau Gofal Integredig presennol ar sail statudol, uno NHS England a NHS Improvement yn ffurfiol, a gwneud newidiadau i reolau caffael a chystadleuaeth sy'n ymwneud â gwasanaethau iechyd. Mae'r Bil hefyd yn cynnwys cynigion i roi pwerau i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol gyfarwyddo NHS England a phenderfynu sut y trefnir rhai gwasanaethau iechyd eraill. Mae'n rhoi pwerau i'r Ysgrifennydd Gwladol drosglwyddo swyddogaethau rhwng rhai o'r 'Cyrff Hyd Braich' sy'n arwain, yn cefnogi ac yn rheoleiddio gwasanaethau gofal iechyd yn Lloegr ac i ddirprwyo swyddogaethau eraill yr Ysgrifennydd Gwladol i'r cyrff hynny mewn perthynas â'r gwasanaeth iechyd yn Lloegr, ac i ymyrryd mewn newidiadau arfaethedig i'r ffordd y caiff gwasanaethau iechyd eu darparu.
 - b) Nid yw'r Bil yn ymdrin â diwygiadau ehangach i'r systemau gofal cymdeithasol ac iechyd y cyhoedd, er ei fod yn darparu ar gyfer rhai

newidiadau yn y meysydd hyn; Bwriedir i Systemau Gofal Integredig wella'r cydgysylltu rhwng y GIG a gwasanaethau awdurdodau lleol. O ran gofal cymdeithasol, mae'r Bil yn darparu i'r Comisiwn Ansawdd Gofal asesu sut mae awdurdodau lleol yn Lloegr yn cyflawni eu swyddogaethau gofal cymdeithasol i oedolion, a nod y Bil yw gwella'r broses o rannu data. Ceir mesurau hefyd i symleiddio'r ffordd y mae pobl ag anghenion gofal parhaus yn cael eu rhyddhau o ysbytai.

- c) Mae mesurau iechyd y cyhoedd yn y Bil yn ymwneud â hysbysebu bwyd, gwybodaeth am fwyd i ddefnyddwyr a fflworideiddio dŵr.
- d) Mae'r Bil hefyd yn mynd i'r afael ag ymchwiliadau diogelwch ac yn sefydlu Corff Ymchwiliadau Diogelwch y Gwasanaethau Iechyd fel corff statudol, ac yn gwneud newidiadau i'r system archwilwyr meddygol.
- e) Ymhlith y materion eraill a gwmpesir gan y Bil mae rheoleiddio gweithwyr iechyd a gofal proffesiynol, casglu a rhannu data (gan gynnwys mesurau i gefnogi'r gwaith o ddatblygu cofrestrfa meddyginiaethau newydd), gofal iechyd rhyngwladol, a safonau bwyd mewn ysbytai.

Y darpariaethau yn y Bil y mae angen cydsyniad ar eu cyfer

- 6. Mae'r darpariaethau a ganlyn y Bil o fewn (neu'n addasu) cymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru, sef:

Cymal 75 - Tacluso etc darpariaethau ynghylch cyfrifon cyrff penodol y GIG

- 7. Bydd cymal 75 o'r Bil yn mewnosod adran newydd yn Neddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 2006 a fydd yn gosod rhwymedigaethau ar Awdurdodau Iechyd Arbennig mewn perthynas â'u cyfrifon ac harchwilio. Bydd yr adran newydd hefyd yn rhoi pwerau i'r Ysgrifennydd Gwladol roi cyfarwyddiadau i Awdurdodau Iechyd Arbennig mewn perthynas â'r ffurf y mae unrhyw gyfrifon i'w chymryd. Diffinnir Awdurdodau Iechyd Arbennig at y diben hwn fel Awdurdodau Iechyd Arbennig sy'n cyflawni swyddogaethau yn unig neu'n bennaf mewn perthynas â Lloegr, neu'r rhai sy'n arfer swyddogaethau ar sail drawsffiniol.
- 8. Mae dau Awdurdod Iechyd Arbennig sy'n arfer swyddogaethau trawsffiniol: Awdurdod Gwasanaethau Busnes y GIG, a Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG. Ystyrir bod Awdurdodau Iechyd Arbennig trawsffiniol wedi'u sefydlu o dan Ddeddf y GIG 2006 a Deddf y GIG (Cymru) 2006 ("Deddf GIG Cymru"). O dan Ddeddf GIG Cymru, caiff Gweinidogion Cymru roi cyfarwyddiadau i Awdurdod Iechyd Arbennig trawsffiniol ynghylch arfer ei swyddogaethau. Fodd bynnag, bydd y ddarpariaeth newydd yn gymwys i'r Awdurdodau Iechyd Arbennig trawsffiniol hynny sy'n golygu y bydd gan yr Ysgrifennydd Gwladol y pŵer i roi cyfarwyddiadau i Awdurdodau Iechyd Arbennig trawsffiniol ynghylch y ffurf y dylai eu cyfrifon ei chymryd.

9. Nid yw Llywodraeth y DU wedi nodi hwn fel cymal sydd angen cydsyniad deddfwriaethol Senedd Cymru.
10. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod angen cydsyniad gan fod gan Senedd Cymru gymhwysedd i ddeddfu mewn perthynas ag Awdurdod Gwasanaethau Busnes y GIG a Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG, y mae'r ddau ohonynt yn Awdurdodau Iechyd Arbennig trawsffiniol a sefydlwyd o dan Ddeddf GIG Cymru.
11. Mae paragraffau 8 a 10 o Atodlen 7B i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 ("Deddf Llywodraeth Cymru") yn cynnwys cyfyngiadau ar Senedd Cymru mewn perthynas â rhoi, gosod, dileu neu addasu swyddogaethau awdurdod cyhoeddus. Fodd bynnag, ceir eithriadau ym mharagraff 9(2) a 10. Yn bwysig iawn, mae Awdurdod Gwasanaethau Busnes y GIG a Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG wedi'u heithrio. Felly, mae gan Senedd Cymru gymhwysedd i ddeddfu mewn perthynas â'r ddau SHA trawsffiniol hyn.

Cymal 78 – Cleifion ysbyty ag anghenion gofal a chymorth

12. Mae cymal 78 yn diddymu Deddf Gofal Cymunedol (Rhyddhau Gohiriedig etc) 2003 ("Deddf 2003"), sy'n gymwys i Gymru a Lloegr. Mae Deddf 2003 yn ei gwneud yn ofynnol i angen i berson am ofal a chymorth gael ei asesu cyn i'r person gael ei ryddhau o'r ysbyty. Mae hefyd yn darparu ar gyfer hysbysiadau a chosbau ariannol rhwng awdurdodau lleol a chyrrff y GIG mewn perthynas ag achosion o oedi o ran rhyddhau cleifion. Nid yw darpariaethau perthnasol Deddf 2003 wedi'u cychwyn o ran Chymru ac nid oes bwriad polisi i wneud hyn gan nad yw'r darpariaethau'n cyd-fynd â pholisi cyfredol Llywodraeth Cymru o ran canllawiau rhyddhau cleifion na'r egwyddorion cyffredinol ar gyfer gweithio mewn partneriaeth ac integreiddio. Felly, bydd diddymu'r darpariaethau yn dileu deddfwriaeth ddiangen o'r llyfr statud.
13. Yn ogystal, mae cymal 78 yn gwneud diwygiadau i Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 o ganlyniad i'r diddymiad o ran Chymru (hynny yw, dileu'r cyfeiriad at Ddeddf 2003).
14. Mae Llywodraeth y DU wedi nodi hyn fel cymal sydd angen cydsyniad deddfwriaethol Senedd Cymru.
15. Mae iechyd a gofal cymdeithasol yn feysydd datganoledig ac mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod y darpariaethau uchod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru.

Cymal 85: Systemau gwybodaeth am feddyginiaethau

16. Mae cymal 85 o'r Bil yn creu pŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud rheoliadau sy'n darparu ar gyfer sefydlu a gweithredu system wybodaeth am feddyginiaethau gan y Ganolfan Gwybodaeth Iechyd a Gofal

Cymdeithasol (a elwir yn NHS Digital) i ganiatáu creu cofrestrfa meddyginiaethau a ddelir yn ganolog ledled y DU.

17. Mae NHS Digital yn gorff statudol sy'n gyfrifol am ddata iechyd yn Lloegr. Mae'r pŵer wedi'i gyfyngu i greu systemau gwybodaeth at ddibenion sy'n ymwneud â diogelwch, ansawdd ac effeithiolrwydd meddyginiaethau dynol a gwella'r broses o wneud penderfyniadau clinigol mewn perthynas â meddyginiaethau dynol.
18. Caiff rheoliadau a wneir o dan gymal 85 hefyd osod gofynion ar unrhyw berson yn y DU sy'n darparu gwasanaethau, neu sy'n arfer unrhyw bwerau neu ddyletswyddau sy'n ymwneud â meddyginiaethau dynol, iechyd neu addysg i ddarparu gwybodaeth i NHS Digital a gwneud darpariaeth ynghylch defnyddio neu ddatgelu'r wybodaeth honno. Mae'r darpariaethau felly'n darparu bod NHS Digital yn gallu gorchymyn bod gwybodaeth benodol yn cael ei chynnwys yn y system wybodaeth ac y byddai NHS Digital yn gallu defnyddio a datgelu gwybodaeth o'r fath.
19. Mae'r pŵer yn galluogi'r rheoliadau i ddarparu nad yw datgelu gwybodaeth at ddibenion systemau gwybodaeth meddyginiaethau yn mynd yn groes i rwymedigaeth gyfrinachedd sydd ar y person sy'n gwneud y datgeliad.
20. Mae cynhyrchion meddyginiaethol yn fater a gedwir yn ôl i Lywodraeth y DU. Fodd bynnag mae'r cynigion sy'n ymwneud â systemau gwybodaeth meddyginiaethau yn drawsbynciol a byddant yn effeithio ar Gymru.
21. Mae Llywodraeth y DU wedi nodi hyn fel cymal sydd angen cydsyniad y Senedd.
22. O dan baragraff 147 o Atodlen 7A i Ddeddf Llywodraeth Cymru, mae cynhyrchion meddyginiaethol, gan gynnwys gweithgynhyrchu, awdurdodiadau i ddefnyddio a rheoleiddio prisiau yn fater a gedwir yn ôl. Fodd bynnag, mae'r pŵer a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol yng nghymal 85 i wneud rheoliadau sy'n gwneud darpariaeth ynghylch sefydlu a gweithredu systemau gwybodaeth am feddyginiaethau yn eang iawn.
23. Mae'r pŵer i wneud rheoliadau hefyd yn darparu y gellir sefydlu a gweithredu systemau gwybodaeth mewn perthynas â gwella'r broses o wneud penderfyniadau clinigol mewn perthynas â meddyginiaethau dynol. Felly, gellid defnyddio'r systemau gwybodaeth at ddibenion cydnabod tueddiadau mewn canlyniadau gofal iechyd cleifion yng Nghymru, er enghraifft, a gwella gofal iechyd cleifion. Ni fyddai defnydd o'r fath o'r pŵer hwnnw yn cael ei gadw i'r DU (ar yr amod nad yw'n ymwneud â materion a gedwir yn ôl).
24. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn y gallai Senedd Cymru ddeddfu i roi i Weinidogion Cymru rhai o'r pwerau a roddir i'r Ysgrifennydd Gwladol yng nghymal 85 (er na allai Senedd Cymru ddeddfu i gyflawni'r cyfan).

25. At hynny, mae paragraff 34 o'r Canllawiau ar Ddatganoli, a gynhyrchir gan Lywodraeth y DU ar gyfer ei weision sifil, yn dangos bod angen cydsyniad Senedd Cymru pan fo Bil Senedd y DU yn rhoi neu'n gosod swyddogaeth ar Awdurdod Datganoledig Cymreig. Mae'n debygol iawn y bydd rheoliadau a wneir gan yr Ysgrifennydd Gwladol o dan y gwelliant hwn yn rhoi swyddogaethau a/neu rwymedigaethau i Awdurdodau Datganoledig Cymreig, yn enwedig cyrff iechyd Cymru (h.y. rhwymedigaeth i ddarparu data i NHS Digital at ddibenion sy'n gysylltiedig â meddyginiaethau).

Cymalau 86-92; Trosglwyddo Swyddogaethau Cyrff Hyd Braich

26. Mae'r cymalau hyn yn rhoi pwerau i'r Ysgrifennydd Gwladol i drosglwyddo swyddogaethau rhwng Cyrff Hyd Braich penodedig a ddiffinnir fel "cyrff perthnasol" ac i ddirprwyo swyddogaethau iechyd penodol yr Ysgrifennydd Gwladol iddynt. Mae'r cyrff a bennir i gyd yn Gyrrff Cyhoeddus Anadrannol¹.
27. Mae'r pwerau hyn yn arferadwy gan yr Ysgrifennydd Gwladol drwy reoliadau a hyd yn oed os yw'r Ysgrifennydd Gwladol yn arfer y pŵer i ddirprwyo ei swyddogaethau, yr Ysgrifennydd Gwladol fydd yn gyfrifol am y swyddogaethau hynny.
28. Mae adran 87 yn gwneud darpariaeth i'r pŵer i drosglwyddo swyddogaethau rhwng cyrff perthnasol ac mae adran 88 yn gwneud darpariaeth i'r pŵer i ddarparu ar gyfer arfer swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol gan gorff perthnasol.
29. Mae'r pŵer o dan adran 87 yn darparu y gall yr Ysgrifennydd Gwladol addasu swyddogaethau, cyfansoddiad neu gyllid corff perthnasol, a diddymu'r corff perthnasol os yw wedi mynd yn ddiangen o ganlyniad i drosglwyddo swyddogaethau.
30. Mewn perthynas ag unrhyw reoliadau a wneir o dan adran 87 neu 88 sy'n ymwneud â swyddogaeth sy'n arferadwy mewn perthynas â Chyrmu, yr Alban, neu Ogledd Iwerddon, pan fo gofyniad sy'n bodoli eisoes yng nghyfansoddiad y corff y trosglwyddir y swyddogaeth ohono i gynrychioli buddiannau un o'r cenhedloedd datganoledig, rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud darpariaeth ar gyfer cynnal cynrychiolaeth o'r fath drwy addasu, os oes angen, drefniadau cyfansoddiadol y corff sy'n derbyn y swyddogaeth.
31. Mae hefyd yn ofynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol ymgynghori (cymal 92) pan wneir rheoliadau drafft wrth arfer y pwerau o dan adran 87 ac 88. Rhaid iddynt ymgynghori ag unrhyw gorff y mae rheoliadau drafft yn ymwneud ag ef, unrhyw bersonau eraill y mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn

¹ Maent wedi'u cyfyngu i Health Education England; Y Ganolfan Wybodaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol; Yr Awdurdod Ymchwil Iechyd; Yr Awdurdod Ffrwythlondeb ac Embryoleg Dynol; Yr Awdurdod Meinweoedd Dynol, a NHS England.

ystyried eu bod yn briodol, a'r Llywodraeth Ddatganoledig berthnasol pe bai'r rheoliadau'n gymwys mewn cenedl ddatganoledig.

32. Mae cymal 89 yn gwneud darpariaeth ynghylch cwmpas y pwerau a roddir i'r Ysgrifennydd Gwladol ac yn darparu y caiff darpariaeth y caniateir ei gwneud mewn rheoliadau o dan gymal 87 neu 88 gynnwys darpariaeth sy'n diddymu, yn dirymu neu'n diwygio darpariaeth a wneir gan neu o dan Ddeddf pryd bynnag y'i pasiwyd neu'i gwnaed. Mae hyn yn cynnwys darpariaeth mewn Mesur neu Ddeddf gan Senedd Cymru.
33. Mae cymal 90 yn gwneud darpariaeth ar gyfer cynlluniau trosglwyddo mewn cysylltiad â'r rheoliadau. Mae'n darparu bod y rheoliadau'n darparu ar gyfer trosglwyddo swyddogaethau rhwng cyrff perthnasol. Caiff y cynllun trosglwyddo wneud darpariaeth ar gyfer trosglwyddo eiddo, hawliau neu rwymedigaethau i unrhyw berson priodol o'r corff perthnasol y trosglwyddir swyddogaethau ohono.
34. Mae cymal 91 yn darparu y caiff y Trysorlys wneud darpariaeth i amrywio'r ffordd y mae treth berthnasol yn cael effaith mewn perthynas ag asedau a rhwymedigaethau a drosglwyddir o dan gynllun a wneir o dan gymal 90 ac unrhyw beth a wneir at ddibenion trosglwyddo, neu mewn perthynas â throsglwyddo.
35. Mae Llywodraeth y DU wedi nodi'r rhain fel cymalau sydd angen cydsyniad deddfwriaethol Senedd Cymru.
36. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn, mewn perthynas â chymalau 86 i 89 a 92, fod angen cydsyniad Senedd Cymru. Er bod y rhan fwyaf o'r cymalau hyn yn ymwneud â swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol a chyrrff a gedwir yn ôl, nodwyd effeithiau posibl ar gymhwysedd deddfwriaethol a chymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru.
37. Un o'r cyrff y caiff yr Ysgrifennydd Gwladol drosglwyddo swyddogaethau oddi wrthynt neu iddynt o dan gymal 87 yw'r Awdurdod Meinweoedd Dynol, sy'n arfer swyddogaethau mewn perthynas â Chymru. Er na all Deddf Senedd Cymru fel arfer ddileu neu addasu swyddogaethau awdurdod cyhoeddus, heb gydsyniad Gweinidog y Goron, mae eithriad i'r Awdurdod Meinweoedd Dynol o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru. Felly, byddai gan Senedd Cymru gymhwysedd deddfwriaethol mewn perthynas â'r corff hwn. Felly, mae'n bosibl, yn dibynnu ar y swyddogaethau penodol o dan sylw, y gallai trosglwyddo swyddogaethau o'r Awdurdod Meinweoedd Dynol ymwneud â materion datganoledig. O dan yr amgylchiadau hynny, byddai'n effeithio ar bwerau datganoledig gan y byddai'r swyddogaethau hynny, yn hytrach, yn cael eu harfer gan gorff a sefydlwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol yn unig.
38. Caiff yr Ysgrifennydd Gwladol hefyd ddarparu o dan gymal 88 i'r Awdurdod Meinweoedd Dynol arfer swyddogaethau penodedig yr Ysgrifennydd Gwladol ar eu rhan os ydynt yn swyddogaethau'r

Ysgrifennydd Gwladol sy'n ymwneud â'r gwasanaeth iechyd yn Lloegr neu unrhyw swyddogaethau eraill y gall yr Ysgrifennydd Gwladol eu darparu i Awdurdod Iechyd Arbennig (SHA) eu harfer. Gellid dadlau hefyd y byddai hyn yn rhoi sylw i faterion datganoledig o dan adran 107(6) o Ddeddf Llywodraeth Cymru gan fod gan Senedd Cymru gymhwysedd deddfwriaethol mewn perthynas â'r Awdurdod Meinweoedd Dynol.

39. Felly, mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod angen cydsyniad y Senedd mewn perthynas â chymalau 90 a 91 gan eu bod yn ymestyn i Weinidogion Cymru.
40. Yn ogystal, mae is-adran (6) o Gymal 89 yn gofyn am gydsyniad y Senedd am ei bod yn rhoi pŵer Harri VIII i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud darpariaeth ddiddymu, dirymu neu ddiwygio i ddeddfwriaeth y Senedd mewn rheoliadau a wneir gan yr Ysgrifennydd Gwladol o dan gymalau 87 neu 88. Nid yw'n ofynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol gael cydsyniad Gweinidogion Cymru cyn arfer y pŵer Harri VIII hwn.

Cymal 120: Trefniadau gofal iechyd rhyngwladol

41. Mae'r cymal hwn yn gwneud darpariaeth i ehangu cwmpas y pwerau presennol a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol o dan Ddeddf Gofal Iechyd (Trefniadau'r Ardal Economaidd Ewropeaidd a'r Swistir) 2019 ("HEEASAA") sy'n ymwneud â gofal iechyd cyfatebol i alluogi trefniadau i gael eu gwneud gyda gwledydd y tu allan i'r Ardal Economaidd Ewropeaidd.
42. Mae HEEASAA yn rhoi fframwaith cyfreithiol i'r Ysgrifennydd Gwladol ar gyfer rhoi trefniadau gofal iechyd cynhwysfawr ar waith gyda gwladwriaethau'r Ardal Economaidd Ewropeaidd, y Swistir neu sefydliadau rhyngwladol. Mae'r cymal yn diwygio HEEASAA i alluogi Llywodraeth y DU i roi cytundebau gofal iechyd cyfatebol cynhwysfawr ar waith gyda gwledydd y tu allan i'r EEA a'r Swistir drwy ddileu cyfyngiadau tiriogaethol HEEASAA. Yn benodol, mae'n diwygio pŵer yr Ysgrifennydd Gwladol i wneud taliadau (neu drefniadau ar gyfer talu) mewn perthynas â gofal iechyd a ddarperir mewn gwlad neu diriogaeth y tu allan i'r DU ac i wneud rheoliadau cysylltiedig.
43. Mae HEEASAA yn ei gwneud yn ofynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol ymgynghori â'r Gweinyddiaethau Datganoledig. Ategir y rhwymedigaeth statudol i ymgynghori gan Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth y cytunwyd arno rhwng Llywodraeth y DU, Cymru ac Ysgrifennydd Parhaol Gogledd Iwerddon (yn absenoldeb Gweinidogion Gogledd Iwerddon).
44. Ni fydd cymal 120 ond yn ymestyn graddau tiriogaethol gwledydd a bydd yn dal yn ofynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol ymgynghori â Gweinidogion Cymru, fel sy'n digwydd ar hyn o bryd o dan HEEASAA, cyn gwneud unrhyw reoliadau i roi effaith i gytundebau cyfatebol.

45. Mae Llywodraeth y DU wedi nodi hyn fel cymal sy'n gofyn am gydsyniad deddfwriaethol Senedd Cymru.
46. Mae deddfwriaeth mewn perthynas ag iechyd wedi'i datganoli. Mae materion tramor yn gyffredinol, yn cael eu cadw yn ôl o dan baragraff 10(1) o Atodlen 7A i Ddeddf Llywodraeth Cymru, yn ddarostyngedig i eithriadau sy'n bodoli er mwyn parchu a gweithredu rhwymedigaethau rhyngwladol.
47. Diben cymal 120 yw galluogi'r Ysgrifennydd Gwladol i wneud taliadau mewn perthynas â gofal iechyd dramor i roi effaith i gytundebau gofal iechyd, gyda chymal 120 o'r Bil. Byddai diben o'r fath yn dod o fewn yr eithriad i'r mater a gedwir yn ôl a byddai o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru.
48. Mae'r eithriadau yn Neddf Llywodraeth Cymru yn galluogi Senedd Cymru i ddeddfu er mwyn parchu a gweithredu rhwymedigaethau rhyngwladol ac at y diben o gynorthwyo Gweinidog y Goron mewn perthynas â chysylltiadau rhyngwladol (i'r graddau y maent yn ymwneud â materion datganoledig ac nad oes unrhyw gyfyngiad arall yn cael ei dorri). Os yw cytundeb gofal iechyd yn 'rhwymedigaeth rhyngwladol' yna mae o fewn cymhwysedd Senedd Cymru i ddeddfu mewn perthynas â'i pharchu a'i gweithredu neu gynorthwyo un o Weinidogion y Goron.
49. Mae cymal 120 hefyd yn diwygio HEEASAA i alluogi'r Ysgrifennydd Gwladol i roi swyddogaethau i awdurdodau cyhoeddus a/neu ddirprwyo swyddogaethau iddynt, wrth wneud rheoliadau i wneud darpariaeth er mwyn rhoi effaith i gytundebau gofal iechyd. Diffinnir "awdurdod cyhoeddus" fel person sy'n arfer swyddogaethau o natur gyhoeddus (ond nid yw'n cynnwys person nad yw ond yn gwneud hynny oherwydd arfer swyddogaethau ar ran un arall). Byddai'r diffiniad hwn yn cynnwys Gweinidogion Cymru ond nid yw'n cynnwys cyrff iechyd Cymru a sefydlwyd o dan Ddeddf y GIG (Cymru) 2006. Gan fod Awdurdodau Datganoledig Cymru yn dod o fewn cwrpas y cymal hwn, gallai'r Senedd ddeddfu i roi swyddogaeth debyg i Weinidogion Cymru mewn perthynas â Chymru.

Cymal 123: Rheoleiddio gofal iechyd a phroffesiynau cysylltiedig

50. Mae cymal 123 o'r Bil yn gwneud nifer o ddiwygiadau i adran 60 ac Atodlen 3 o Ddeddf Iechyd 1999 ("Deddf 1999") sy'n ymwneud â rheoleiddio proffesiynau iechyd.
51. Mae hyn yn cynnwys gwelliant a fyddai'n diwygio'r ddarpariaeth bresennol sy'n caniatáu i Orchymyn yn y Cyngor gael ei wneud yn rheoleiddio "any other profession" sy'n ymwneud ag iechyd corfforol neu feddyliol unigolion, fel bod y cyfeiriad at broffesiwn yn cael ei drin fel pe bai'n

cynnwys "any group of workers who are concerned with the physical or mental health of individuals", p'un a ydynt yn cael eu hystyried yn broffesiwn yn gyffredinol ai peidio.

52. Mae Llywodraeth y DU wedi nodi hyn fel cymal sy'n gofyn am gydsyniad deddfwriaethol Senedd Cymru.
53. Er bod rheoleiddio proffesiynau gofal iechyd yn fater a gadwyd yn ôl o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru, mae rheoleiddio personau nad ydynt yn weithwyr proffesiynol ond sy'n ymwneud ag iechyd corfforol neu feddyliol unigolion yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol.

Cymal 125 ac Atodlen 16: Hysbysebu bwyd a diod llai iach

54. Mae cymal 125 yn cyfeirio at Atodlen 16 sy'n diwygio Deddf Cyfathrebiadau 2003 i gyfyngu ar hysbysebu rhai cynhyrchion bwyd a diod mewn perthynas â'r DU. Bwriedir i'r cynhyrchion hyn gael eu nodi trwy broses dau gam: Yn gyntaf mae angen eu cynnwys yn un o'r categorïau o gynhyrchion a nodir mewn rheoliadau a wneir gan yr Ysgrifennydd Gwladol, wedyn bydd angen cymhwyso'r 'relevant guidance'- y "Nutrient Profiling Technical Guidance". Gallai'r Ysgrifennydd Gwladol ddiwygio'r diffiniad o 'relevant guidance'.
55. Mae elfen gwasanaethau rhaglenni teledu Atodlen 16 yn gosod rhwymedigaeth ar OFCOM – corfforaeth statudol ac awdurdod rheoleiddio a chystadleuaeth y DU ar gyfer y diwydiannau darlledu, telathrebu a phost – i bennu safonau sy'n gwahardd gwasanaethau rhaglenni teledu a ddarperir rhwng 5.30am a 9pm rhag cynnwys hysbysebion ar gyfer cynhyrchion afiach adnabyddadwy, yn amodol ar eithriadau. Mae atodlen 16 hefyd yn gwneud darpariaeth sy'n gwahardd hysbysebu'r cynhyrchion hyn ar wasanaethau teledu "ar alw" a ddarlledir rhwng 5.30am a 9.00pm, a gwahardd person rhag gosod hysbyseb ar gyfer y cynhyrchion hyn ar-lein. Mae'r ddau waharddiad hyn yn ddarostyngedig i rai eithriadau ac mae pwerau i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud rheoliadau yn darparu ar gyfer eithriadau pellach.
56. Diben y darpariaethau hyn yw lleihau cysylltiad plant â hysbysebion cynhyrchion bwyd a diod llai iach ar y teledu ac ar-lein, yn unol â strategaeth gordewdra Llywodraeth y DU a ymrwymodd i: "banning the advertising of less healthy food and drink products being shown on TV and online before 9.00pm".
57. Mae cymal 125 hefyd yn cynnwys pŵer canlyniadol. Mae'n diwygio Deddf Cyfathrebiadau 2003 i ganiatáu i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud darpariaeth ganlyniadol drwy Reoliadau sy'n diwygio, yn diddymu neu'n dirymu darpariaethau Deddf neu Fesur Senedd Cymru, neu is-ddeddfwriaeth a wneir o dan ddarpariaethau o'r fath neu o dan Ddeddf Seneddol. Mae'r pŵer hwn wedi'i gyfyngu i ymestyn y gwaharddiad ar

osod neu drefnu hysbysebu ar-lein i bersonau nad ydynt eisoes wedi'u cynnwys o dan Ran C o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003.

58. Nid yw Llywodraeth y DU wedi nodi hyn fel cymal sy'n gofyn am gydsyniad deddfwriaethol Senedd Cymru.
59. Nid oes gan Senedd Cymru gymhwysedd i roi swyddogaethau i OFCOM, oni bai fod Gweinidog perthnasol y Goron yn cydsynio i darpariaeth o'r fath ac ni all ddeddfu at ddibenion sy'n ymwneud â darlledu a gwasanaethau'r rhyngwlad (gan fod y rhain wedi'u cadw yn ôl). Er hynny, Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod y darpariaethau'n dod o fewn cymhwysedd Senedd Cymru am fod diben y darpariaethau'n ymwneud yn bennaf ag iechyd y cyhoedd (h.y. lleihau gordewdra ymhlith y boblogaeth a gwella canlyniadau iechyd) yn hytrach na darlledu a gwasanaethau'r rhyngwlad. Nid yw unrhyw ymgysylltu â'r cymalau cadw hynny ond yn ategol i brif ddiben iechyd y cyhoedd y cymal sy'n lleihau cysylltiad plant â hysbysebion bwyd afiach.
60. Bernir hefyd fod y pŵer i wneud darpariaeth ganlyniadol o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru. Nid yw'n ofynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol gael cydsyniad Gweinidogion Cymru cyn arfer y pŵer Harri VIII hwn y gellid ei ddefnyddio i ddiwygio deddfwriaeth y Senedd.

Cymal 127: Gwybodaeth am fwyd i ddefnyddwyr - pŵer i ddiwygio cyfraith yr UE a ddargedwir

61. Mae cymal 127 yn cyflwyno adrannau newydd i Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990 i alluogi rheoliadau a wneir o dan adran 16(1)(e) o'r Ddeddf honno i wneud diwygiadau, yn eu tro, i Reoliad (UE) Rhif 1169/2011 a ddargedwir ar ddarparu gwybodaeth am fwyd i ddefnyddwyr. Mae adran 16 o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990 yn arferadwy gan yr Ysgrifennydd Gwladol (mewn perthynas â Lloegr), Gweinidogion yr Alban (mewn perthynas â'r Alban) a Gweinidogion Cymru (mewn perthynas â Chymru). Bydd hyn yn caniatáu i Weinidogion Cymru gyflwyno nifer o gynigion polisïau Llywodraeth Cymru ar fynd i'r afael â gordewdra, a allai ofyn am ddiwygio'r ddeddfwriaeth hon a ddargedwir.
62. Mae Llywodraeth y DU wedi nodi hyn fel cymal sy'n gofyn am gydsyniad deddfwriaethol Senedd Cymru.
63. Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno gan y gallai Deddf Senedd Cymru ddeddfu i roi'r pŵer i'r graddau y mae'n arferadwy o fewn cymhwysedd datganoledig. Er bod Deddf Llywodraeth Cymru yn cynnwys cymalau cadw mewn perthynas â diogelu'r defnyddiwr ac mewn perthynas â labelu cynhyrchion, mae'r ddwy adran hyn yn cynnwys eithriadau ar gyfer bwyd a chynhyrchion bwyd. Mae labelu bwyd a darparu gwybodaeth am fwyd, felly'n faes datganoledig.

Cymal 130: Y pŵer i wneud darpariaeth ganlyniadol

64. Mae cymal 130 o'r Bil yn rhoi pŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud darpariaeth, drwy reoliadau, sy'n ganlyniadol i'r Bil hwn. Gall hyn gynnwys darpariaeth sy'n diwygio, yn diddymu, yn dirymu neu'n addasu fel arall unrhyw ddarpariaeth o fewn y Bil neu unrhyw ddarpariaeth a wneir gan neu o dan Ddeddf neu Fesur Senedd Cymru.
65. Mae hon yn ddarpariaeth ar draws y Bil, sy'n golygu y gallai'r Ysgrifennydd Gwladol arfer y pŵer canlyniadol hwn mewn perthynas ag unrhyw agwedd ar y Bil er mwyn diwygio deddfwriaeth y Senedd heb droi at Weinidogion Cymru. Mae'r cymal hwn yn debyg i gymalau 89(6) a 125.
66. Nid yw Llywodraeth y DU wedi nodi hyn fel cymal sy'n gofyn am gydsyniad deddfwriaethol Senedd Cymru.
67. Er hynny, mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod y ddarpariaeth hon yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru ac felly fod angen cydsyniad deddfwriaethol senedd Cymru.

Rhesymau dros wneud y darpariaethau hyn ar gyfer Cymru yn y Bil Iechyd a Gofal

68. Er bod rhinwedd i rai o'r darpariaethau yn y Bil, er enghraifft mewn perthynas â gordewdra, gwybodaeth am fwyd i gwsmeriaid a diddymu deddfiadau diangen (yn ymwneud ag anghenion cleifion am ofal a chymorth i'w hasesu cyn eu rhyddhau o'r ysbyty), mae Llywodraeth Cymru o'r farn y byddai nifer o'i ddarpariaethau yn cael effaith niweidiol ar y setliad datganoli.

Safbwynt Llywodraeth Cymru ar y Bil fel y'i cyflwynwyd

69. Nid yw Llywodraeth Cymru mewn sefyllfa i argymhell cydsyniad i'r Bil fel y'i cyflwynwyd.
70. Mae hyn ar y sail, er bod rhai o'r cymalau o gymorth i Gymru, fod nifer o gymalau sy'n peri pryder:
 - cymalau yn y Bil sy'n galluogi'r Ysgrifennydd Gwladol i wneud diwygiadau canlyniadol i ddeddfwriaeth y Senedd;
 - cymalau yn y Bil a allai effeithio'n negyddol ar gyrff y GIG yng Nghymru (er enghraifft y cymalau sy'n ymwneud â Systemau Gwybodaeth am Feddyginiaethau, Trefniadau Gofal Iechyd Rhyngwladol a rheoleiddio proffesiynau gofal iechyd).
71. Mae anghytundeb o hyd rhwng Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru ar rai o'r materion hyn a bydd gwaith pellach gyda Llywodraeth y DU i ddatrys y pryderon hyn yn parhau yn ystod hynt y Bil drwy'r Senedd a

bydd Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol atodol yn cael ei gyflwyno os bydd angen.

Goblygiadau ariannol

72. Mae darpariaethau'r Bil yn arwain at oblygiadau ariannol posibl i Lywodraeth Cymru a chyrff iechyd Cymru. Er enghraifft, ym maes cleifion sy'n ymweld â Chymru i gael triniaeth o dan gytundebau gofal iechyd rhyngwladol. Er hynny, mae'n amhosibl asesu'r rhain nes y caiff penderfyniadau eu gwneud gan Lywodraeth y DU ar weithredu.

Casgliad

73. Fel y nodir uchod, mae angen cydsyniad deddfwriaethol Senedd Cymru ar gyfer nifer o gymalau ym Mil Iechyd a Gofal 2021-2022. Mae nifer o'r cymalau hyn yn peri pryder cyfansoddiadol i Lywodraeth Cymru. Felly, er gwaethaf rhinweddau rhai o'r cymalau, mae safbwynt terfynol Gweinidogion Cymru ar allu argymhell cydsyniad yn ddarostyngedig i drafodaethau parhaus gyda Llywodraeth y DU ynghylch diwygio'r Bil.

Eluned Morgan AS

Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

31 Awst 2021